**Beirniadaeth Cystadleuaeth 313**
**Cyfansoddi cerddoriaeth blwyddyn 10 ac 11**
**Beirniad: Elain Rhys**

Daeth 11 cyfansoddiad i law, pob un a'i rinweddau gan ddangos creadigrwydd cerddorol – diolch i bob un ohonynt. Derbyniwyd pedwar darn ar gyfer ensemble offerynnol, tair cân, tri unawd piano ac un darn ar gyfer deuawd offerynnol.

Cafwyd amrywiaeth yn y modd y cyflwynwyd y cyfansoddiadau. Roedd rhai ymgeiswyr yn defnyddio meddalwedd Sibelius i gyflwyno sgôr ac eraill yn dibynnu ar weithfan sain ddigidol i gyfansoddi a recordio. Defnyddiwyd harmoni diatonig ar y cyfan gyda rhai o'r cyfansoddiadau yn glynu at gordiau syml ac eraill yn fwy mentrus gyda chordiau estynedig, nodau cromatig a thrawsgyweiriadau. Roedd y deunydd thematig yn fwy estynedig ac arbrofol yn y cyfansoddiadau a ddaeth i'r brig.

O'r 11 ymgais, daeth y tri canlynol i'r brig:

Mae 'Yr Afon Wysg' gan IW yn unawd firtiwosig ar gyfer y piano sy'n darlunio symudiad yr afon mewn modd argyhoeddedig ac apelgar. Caiff yr alaw wreiddiol ei datblygu mewn cyfres o amrywiadau sy'n dangos dealltwriaeth y cyfansoddwr o'r offeryn yn dda iawn. Byddai derbyn sgôr o'r gerddoriaeth wedi bod yn ddefnyddiol. Er hyn, roedd 'Yr Afon Wysg' yn rhagori yn y modd y datblygwyd y gerddoriaeth mewn modd aeddfed a medrus.

Yn yr un modd, unawd i'r piano a gafwyd gan Idris yn dwyn y teitl 'Macsen ac Elen – Thema Cariad'. Daeth sgôr safonol i law ynghyd â recordiad o'r gerddoriaeth. Darn mewn ffurf ABA wedi'i ddylanwadu'n gryf gan gyfansoddwyr y cyfnod Rhamantaidd a geir yma, ac mae wedi'i gynllunio a'i gyflwyno'n dda gyda rhan ganol gyferbyniol. Gallaf ddychmygu fod y darn hwn yn fwy apelgar mewn perfformiad byw pan fydd pianydd yn medru rhoi mwy o sylw i'r alaw a llai o bwyslais ar y rhannau mewnol sy'n cyfeilio.

Mae 'Ymdeithgan Gwenllian' gan Gwenllian yn ddeuawd ddeniadol i ffliwt a thelyn. Sgôr yn unig a gyflwynwyd y tro hwn, ond mae manylder y cyfarwyddiadau perfformio ar y sgôr ac addasrwydd yr ysgrifennu ar gyfer yr offerynnau yn rhinweddau sydd i'w canmol yn fawr. Er bod cynllun cordiol sefydlog i'r darn, nid yw hyn yn tynnu oddi ar apêl y gwaith.

1af – IW
2il – Idris
3ydd – Gwenllian